Bwrdd Academaidd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol
Dydd Mercher, 20 Mai 2020
Microsoft Teams

Yn bresennol:

Aelodau (Coleg):	Dr Hefin Jones (Cadeirydd a Deon), Yr Athro Siwan Davies, Dr Dylan Foster Evans, Yr Athro Mererid Hopwood, Dr Awen Iorwerth, Yr Athro Elin Haf Gruffydd Jones, Delyth Murphy, Yr Athro Eleri Pryse, Dr Euryn Roberts, Dr Prysor Williams, Llŷr Roberts
Aelodau (Sefydliad):	Rebecca Bowen, Judith Davies, Dr Gwenno Ffrancon, Penri James, Elan Mai Nefydd, Dr Paula Roberts, Daniel Tiplady, Dr Catrin Haf Williams
Aelodau (Myfyrwyr):	Megan Colbourne, Cerys Griffiths, Tomos Ifan, Lleucu Myrddin, Emyr Owen, Sara Patterson
Aelodau (Addysg Bellach):	Carys Swain
Yn bresennol:	Gareth Pierce (Cadeirydd y Coleg)
Swyddogion:	Dr Ioan Matthews (Prif Weithredwr), Dr Dylan Phillips (Uwch Reolwr Academaidd), Dr Dafydd Trystan (Cofrestrydd), Mari Fflur (Rheolwr Academaidd), Delyth Ifan (Rheolwr Academaidd), Rhian Jones (Rheolwr Academaidd), Gwenllian Owen (Rheolwr Academaidd), Nia Brown (Swyddog Datblygu: Ysgrifenyddiaeth)
Ymddiheuriadau:	Yr Athro Jerry Hunter, Meri Huws, Dr Jonathan Morris, Elis Alsopp, Llio Alun

Eitem	**Prif bwyntiau trafod**	**Pwyntiau Gweithredu**	**Cyfnod amser**
1. Croeso a Sylwadau Agoriadol	1.1. Croesawyd yr aelodau'n ffurfiol i'r cyfarfod gan y Deon. 1.2. Estynnwyd croeso arbennig i Penri James, Cadeirydd Cangen Prifysgol Aberystwyth, i'w gyfarfod cyntaf. 1.3. Croesawyd Delyth Ifan sy'n ymuno â staff y Coleg ar gyfer cyfnod mamolaeth Mari Fflur. 1.4. Croesawyd Cadeirydd newydd y Coleg, Gareth Pierce, yn ogystal.		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
2. Ymddiheuriadau a datganiadau o ddiddordeb	2.1. Nodwyd ymddiheuriadau fel uchod. 2.2. Nid oedd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb i'w nodi.		
3. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Chwefror 2020	3.1. Derbyniwyd y cofnodion o'r cyfarfod blaenorol fel cofnod cywir.		
4. Diweddariad gan y Prif Weithredwr **(Eitem 4)**	4.1. Cafwyd diweddariad ar ymateb y Coleg i'r argyfwng presennol gan y Prif Weithredwr. 4.2. Adroddwyd bod y Coleg yn ymwybodol o'r cyfnod heriol yn y prifysgolion a bod y Coleg yn awyddus i gefnogi'r sector wrth ddiogelu darpariaeth cyfrwng Cymraeg. 4.3. Adroddwyd bod cyfarfodydd unigol yn digwydd ar hyn o bryd gyda'r prifysgolion ac y bydd y Coleg yn dargyfeirio unrhyw gyllid fydd ar gael yn sgil gweithgareddau â ohiriwyd i gynlluniau penodol i ymateb i'r argyfwng. 4.4. Yn benodol, nodwyd bod trafodaeth ar ehangu'r cynllun ysgoloriaethau ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf. 4.5. Adroddwyd bod cyfarfod wedi ei drefnu gyda swyddogion Llywodraeth Cymru yn ystod y prynhawn i drafod y sefyllfa gyfredol. 4.6. Adroddwyd y bydd y Coleg yn darparu gwybodaeth am y cynlluniau ar gyfer y Dystysgrif Sgiliau Iaith o fewn yr wythnosau nesaf.	Coleg i gyhoeddi trefniadau TSI	Cyn diwedd tymor yr haf
5. Adolygu cynlluniau pynciol	5.1. Rhoddwyd diweddariad llafar ar sefyllfa adolygu cynlluniau pynciol gan Dr Dylan Phillips. 5.2. Adroddwyd mai'r bwriad gwreiddiol oedd cyflwyno adroddiad i'r cyfarfod hwn gyda chasgliadau, yn crynhoi cyrhaeddiad y cynlluniau pwnc yn erbyn y targedau tymor canolig ar gyfer 2019/20, ac yn nodi unrhyw heriau a llwyddiannau neilltuol. Yn sgil yr argyfwng rhoddir ystyriaeth i'r mater yng nghyfarfod yr hydref yn lle. 5.3. Adroddwyd bod gwybodaeth am gynnydd pob adran sy'n	Adroddiadau cynllunio pynciol a grantiau pynciol i'w cyflwyno i'r BA	14 Hydref 2020

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	derbyn grant pynciol wedi cyrraedd y Coleg erbyn dechrau mis Mawrtth 2020. Fodd bynnag, yn achos adrannau eraill sy'n cael eu cynrychioli mewn cynlluniau pwnc ond nad ydynt yn derbyn grant wrth y Coleg, nid yw pawb sydd wedi gallu darparu gwybodaeth ar gyfer yr adolygiad cyn yr argyfwng. Er mwyn peidio creu gwaith ychwanegol i'r prifysgolion ar hyn o bryd bydd y dyddiad cau yn cael ei ymestyn ac o ganlyniad bydd oedi ar gyflwyno'r adroddiad i'r Bwrdd tan yr hydref.		
6. Y sefyllfa bresennol	6.1. Cyflwynwyd barn y myfyrwyr a'r canghennau ar yr heriau yn sgil y sefyllfa. 6.2. Rhoddwyd crynodeb ar ran y myfyrwyr gan Lleucu Myrddin: • Bod y prifysgolion wedi ymateb i'r sefyllfa wrth symud darpariaeth i addysgu ar-lein • Bod gan bob prifysgol polisi dim anfantais • Prinder a diffyg adnoddau ar-lein trwy gyfrwng y Gymraeg mewn rhai meysydd • Anhawster cysylltu gyda darlithwyr oherwydd heriau technegol • Diffyg cyswllt dibynadwy i'r we 6.3. Yn ystod y drafodaeth nodwyd pwysigrwydd darparu adnoddau Cymraeg sy'n bodoli eisoes ar-lein yn ogystal â sicrhau bod deunyddiau cyfatebol i'r Saesneg ar gael hefyd. 6.4. Nodwyd bod ystyriaethau hawlfraint a'r broses o ddigido adnoddau yn gallu bod yn heriol. Mae'r Coleg yn y gorffennol wedi cydweithio yn agos gyda'r Llyfrgell Genedlaethol, Canolfan Bedwyr a darlledwyr wrth ddigido adnoddau ac wedi gwneud hynny'n llwyddiannus. 6.5. Adroddwyd bod y Coleg yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â phrinder adnoddau safonol ar-lein a bydd	Myfyrwyr i ddarparu enghreifftiau penodol Diweddariad ar y cynllun gweithredu adnoddau ar-	Tymor yr haf 14 Hydref 2020

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	modd adnabod y bylchau trwy'r paneli pwnc. 6.6. Adroddwyd ar y bwriad o drefnu sesiynau rhannu arfer da ar addysgu cyfunol ac o bell. 6.7. Trafodwyd y gofid ynghylch diffyg ystyriaeth o'r Gymraeg ar bwyllgorau trafod a pholisi ymateb i'r argyfwng. Nodwyd bod siaradwyr Cymraeg yn gyfran amlwg o'r farchnad ddomestig yn y cyfnod nesaf a bod hyn yn fantais i'r sefyllfa recriwtio. 6.8. Yn ystod y drafodaeth rhannwyd manylion cyswllt bandlydan ffeibr optig gyda'r aelodau. 6.9. Rhannodd y canghennau eu profiadau yn eu tro gan gynnwys: • Bod y prifysgolion wedi ymateb i'r sefyllfa wrth symud darpariaeth i addysgu ar-lein • Cyhoeddi polisi dim anfantais • Sicrhau cyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg yn ystod Wythnos y Glas (rhithiol) • Cynllunio addysgu ar-lein tan fis Ionawr 2021 • Pwysigrwydd profiad y myfyriwr • Prinder adnoddau ar-lein • Ail-ddiffinio hyd darlith a recordio darlithoedd • Diffyg cyswllt dibynadwy i'r we • Gofid bod yr iaith yn colli ei thir • Ailgylchu deunyddiau wrth gefnogi cyrff eraill megis AmGen a'r Mentrau Iaith • Heriau profiad gwaith • Rhinweddau niferoedd bychain yn addysgu trwy'r Gymraeg a'r profiad cadarnhaol o ryngweithio i'r myfyrwyr hynny • Darlithwyr newydd yn cael eu penodi mewn sawl maes galwedigaethol yn ystod yr argyfwng • Heriau addysgu cyrsiau galwedigaethol a	lein Diweddariad ar arfer da addysgu o bell	14 Hydref 2020

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	diwydiannau creadigol ar-lein 6.10 Yn ystod y drafodaeth nodwyd y pwysigrwydd i rannu adnoddau o'r safon uchaf i fyfyrwyr a rhannu arfer da a hynny ar fyrder. 6.11 Nodwyd yr angen i gynnal cyllideb y Coleg er mwyn gallu cadw'r darpariaeth cyfrwng Cymraeg gan gofio difrifoldeb yr argyfwng presennol a'r heriau dwys sy'n wynebu'r prifysgolion. 6.12 Crybwyllwyd sut mae'n bosib cynorthwyo staff gyda'r gwaith gwirfoddol cyfrwng Cymraeg sy'n codi o ewyllys da. 6.13 Trafodwyd y posibilrwydd bod y canghennau yn cydweithio yn ystod Wythnos y Glas i greu ymdeimlad o gymuned. 6.14 Trafodwyd pwysigrwydd y cyswllt wyneb yn wyneb personol ac fod colli hwnnw yn golled enbyd. 6.15 Trafodwyd yn ogystal y cymhelliant i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg ond bod angen cofio'r effaith cyffredinol ar gymhelliant i astudio o gwbl yn 2020. 6.16 Ar ddiwedd y drafodaeth nododd y Prif Weithredwr a'r Cofrestrydd eu diolch i'r aelodau am y diweddariadau cynhwysfawr, ond gan gyfleu hefyd y pryder am ddifrifoldeb y sefyllfa gyfredol. Bydd y Coleg yn parhau i ystyried sut orau i gefnogi'r prifysgolion wrth ymateb i'r heriau sylweddol a fydd yn wynebu'r sector addysg uwch ym mlwyddyn academaidd 2020/21 a thu hwnt.		
7. Pwyllgor Ymchwil a Chyhoeddi (Eitem 7i a ii)	7.1. Nodwyd cofnodion drafft y Pwyllgor Ymchwil a Chyhoeddi, 6 Chwefror 2020, er gwybodaeth. 7.2. Derbyniwyd ymestyn cadeiryddiaeth yr Athro Jerry Hunter am flwyddyn. 7.3. Derbyniwyd yr argymhelliad i'r pwyllgor beidio cyfarfod dros tymor yr haf.		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	7.4. Derbyniwyd yr argymhelliad i benodi'r Athro Ann Parry Owen fel aelod newydd am dymor o chwe blynedd. 7.5. Derbyniwyd yr argymhelliad i ail-benodi'r Athro Alan Shore a'r Dr Catrin Haf Williams am dymor pellach o chwe blynedd.		
8. Materion yn codi	8.1. Eitem 5.4: Gweithdy canllaw data CCAUC – ASA. Adroddwyd bod y trafodaethau gyda'r Cyngor Cyllido ar y canllaw data yn parhau ond bod amserlen y Cyngor Cyllido ar gyfer cynnal gweithdy data gyda'r prifysgolion wedi gorfod cael ei ohirio o ganlyniad i'r argyfwng. 8.2. Eitem 6.1: Gweithdrefn materion yn codi gan y myfyrwyr. Adroddwyd bod y weithdrefn i fyfyrwyr ar gyfer cwyno am ddarpariaeth Gymraeg yn eu prifysgolion wedi ei gylchredeg, er gwybodaeth, ar 15 Mai 2020. 8.3. Eitem 6.5: Staff cwnsela Cymraeg. I'w gadw ar yr agenda. 8.4. Eitem 7.1: Cynllun Strategol y Coleg ac AU: Nodwyd bod gobeithion y Coleg am allu cefnogi cynlluniau newydd mewn AU wedi'u heffeithio'n drwm gan yr argyfwng presennol a'r goblygiadau i'r cyllid posib a fyddai ar gael i'r sector drwy'r Cyngor Cyllido yn sgil gweithredu adolygiad Diamond. Ni fydd modd gweithredu am y tro ar y syniadau a gyflwynwyd i gyfarfod diwethaf y Bwrdd. Serch hynny, mae swyddogion y Coleg yn parhau i drafod gyda'r Cyngor Cyllido, er mae'n debygol y bydd oedi o flwyddyn fan lleiaf i'r cynlluniau yn sgil Diamond. 8.5. Eitem 9.5: Data Ysgoloriaethau 2019/20. Adroddwyd y bydd modd cymharu ffigyrau UCAS maes o law. 8.6. Eitem 11: Gohirio digwyddiadau yn sgil yr argyfwng. Nodwyd bod cyfarfod y Llys wedi'i ohirio tan fis Mehefin; nad oedd cynlluniau ar gyfer y Cynulliad Blynyddol eto; a bod enwebiadau ar gyfer Gwobrau'r Darlithwyr Cysylltiol wed'u derbyn.		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	8.7. Eitem 14.2 Dathlu Myfyrwyr Iechyd Caerdydd: Ni fydd dathlu ym mis Mehefin ond, yn dibynnu ar y cyfyngiadau teithio ac ati, efallai y bydd yn cael ei gynnal yng Nghynhadledd y Gymdeithas Feddygol yn Llandudno ar 10-11 Hydref 2020. 8.8. Eitem 15.1: Diweddariad ar Myfyrwyr tu hwnt i'r ffin. Adroddwyd bod y Coleg wedi dechrau ystyried cyfleoedd amgen i ddatblygu'r cyswllt gyda myfyrwyr sydd yn astudio tu allan i Gymru.		
9. UFA	15.1 Adroddwyd bod panel wedi cwrdd ym mis Mawrth i ddyfarnu 10 ysgoloriaeth ymchwil (gyda 3 wrth gefn) i'r prifysgolion. 15.2 Yn ystod y cyfarfod cyhoeddwyd cynllun ail-agor colegau a phrifysgolion gan Lywodraeth Cymru.		
10. Dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf	10.1. Nodwyd y dyddiadau canlynol: • 14 Hydref 2020 • 3 Chwefror 2021 • 12 Mai 2021		